OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1273

## Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

## RHAN 10

TALIADAU

**Talu grantiau neu fenthyciadau at ffioedd**

**55.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â thalu'r grant neu'r benthyciad at ffioedd y mae gan fyfyriwr hawl i'w gael onid ydynt wedi cael cais am dâl oddi wrth yr awdurdod academaidd perthnasol ac yn achos benthyciad at ffioedd, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â thalu'r benthyciad cyn bod cyfnod o dri mis sy'n dechrau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd wedi dod i ben.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r benthyciad at ffioedd y mae myfyriwr yn ymgymhwyso ar ei gyfer i awdurdod academaidd y mae'r myfyriwr yn atebol i dalu iddo.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r grant at ffioedd i'r awdurdod academaidd —

(a) nid cyn diwedd cyfnod o dri mis sy'n dechrau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd; a

(b) nid hwyrach na 10 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod yn is-baragraff (a), neu yn ddi-oed ar ôl i gais dilys am daliad ddod i law, os yw hynny yn hwyrach.

(4) Os yw asesu cyfraniad y myfyriwr neu faterion eraill wedi gohirio cyfrifiad terfynol swm y grant y mae gan y myfyriwr hawl i'w gael, caiff Gweinidogion Cymru wneud asesiad a thaliad dros dro.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru dalu'r benthyciad at ffioedd mewn rhandaliadau.

(6) Os yw asesu cyfraniad myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn neu faterion eraill wedi gohirio cyfrifiad terfynol swm y benthyciad at gyfraniad at ffioedd y mae gan y myfyriwr hawl i'w gael o dan reoliad 20, caiff Gweinidogion Cymru wneud asesiad a thaliad dros dro.

(7) Ni chaniateir talu'r grant neu'r benthyciad at ffioedd mewn cysylltiad â chwrs dynodedig—

(a) os bydd y myfyriwr cymwys yn rhoi'r gorau i fod yn bresennol ar y cwrs cyn diwedd cyfnod o dri mis sy'n dechrau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd neu, yn achos myfyriwr yr ymdrinnir ag ef fel pe bai'n bresennol o dan reoliad 12(4) a 12(5) yn ymgymryd â'r cwrs; a

(b) os yw'r awdurdod academaidd wedi penderfynu neu wedi cytuno na fydd y myfyriwr yn dechrau bod yn bresennol neu yn ôl y digwydd, ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig eto yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r ffioedd yn daladwy mewn perthynas â hi neu o gwbl.